# Cylchlythyr Dolydd Llŷn 2022

*Gwarchod, creu a rhannu dolydd a choridorau bywyd gwyllt yn Llŷn*




**"Cymerodd oddeutu 6,000 mlynedd i greu'r gwelltir llawn rhywogaethau sy'n sicrhau bod y DU yn adnabyddus ledled y byd, ond eto rydym wedi colli 97% mewn llai na chanrif " (Plantlife)**

Bellach mae pwysigrwydd gwelltir llawn rhywogaethau'n cael ei gydnabod fwyfwy, gyda'r cyfryngau'n canolbwyntio mwy arnyn nhw eto eleni ac ymgyrchoedd amrywiol megis Achub ein Gweirgloddiau Gwych gan Plantlife yn ogystal â phrojectau fel Gofod Gwyrdd Gwydn a weithredir gan Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol. Mae'r cynigion a amlinellir ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, i'w gyflwyno yng Nghymru yn 2025, hefyd yn cynnwys cyfleoedd ar gyfer creu gweirgloddiau yn yr amgylchedd a amaethir.


Nid gweirgloddiau a phorfeydd yw'r unig fannau lle all gwelltir llawn rhywogaethau ffynnu. Yn y cylchlythyr hwn rydw i wedi ceisio amlygu'r gwahanol leiniau yn Llŷn y gallwn edrych ar eu holau er mwyn gwarchod y cynefin hwn sy'n diflannu. Mae pob gweirglodd yn bwysig ac yn helpu i ddarparu llwybrau i fywyd gwyllt ar hyd a lled ein tirlun.

Jo Porter



Cribell felen





Brain coesgoch



Glesyn cyffredin

© Ben Porter

gweirgloddiau gwych magnificent meadows

rspb yn rhoi cartref i fyd natur | giving nature a home Cymru

# Mynwentydd

**Mae o leiaf un capel neu eglwys ym mhob pentref, ac o gwmpas y rhan fwyaf o'r rhain mae gwelltir heb ei wella a all fod yn llawn o flodau a ffwng o dderbyn rheolaeth briodol. Mae Eglwys y Santes Fair yn Nefyn (Amgueddfa Forwrol Llŷn erbyn hyn) yn ei hail flwyddyn o reolaeth 'parth' (blaen yr Eglwys yn cael ei dorri'n rheolaidd tra bod y cefn yn cael rhyddid i dyfu, blodeuo a hadu). Mae [www.caringforgodsacre.org.uk](http://www.caringforgodsacre.org.uk) yn cynnig digon o adnoddau a all eich cynorthwyo i lunio cynllun.**







Mynwent Eglwys y Santes Fair

## Mynwent Aberdaron

Ym mynwent Aberdaron mae bron i 80 rhywogaeth o blanhigion gwyllt, nifer sydd wedi cynyddu yn y blynyddoedd diwethaf. Rhoddwyd rheolaeth bositif dros flodau a bywyd gwyllt ar waith dros ugain mlynedd yn ól pan roddodd y Parch Evelyn Davies, y Ficer ar y pryd, y gorau i dorri'r glaswellt nes roedd y rhan fwyaf o'r blodau wedi blodeuo. Er iddi ymddeol yn fuan wedyn, mae Ian a minnau wedi parhau á'r drefn dorri a'i gwella ymhellach dros y blynyddoedd  Torrir y rhan fwyaf o'r glaswellt ddwywaith y flwyddyn, ni thorrir rhan arall o gwbl ac mae'r darn o flaen yr Eglwys yn cael ei dorri'n rheolaidd er mwyn edrych yn daclus ac o dan reolaeth. Mae cyfathrebu da gyda'r torrwr gwair yn bwysig oherwydd mae'r tymhorau'n gallu amrywio.

Rhyw bum mlynedd yn ól galwodd Cofnodwr Sir Gwynedd i weld y planhigion a chofnododd 70 rhywogaeth. Rydym wedi bod yn ychwanegu at hyn bob blwyddyn. Mae'n wirioneddol ryfeddol sut mae planhigion yn cytrefu ar dir ac o dan amodau priodol. Yn y blynyddoedd diwethaf, ymddangosodd clwstwr bach o lafant-y-mór. Gadawyd y tir wrth ei ymyl heb ei dorri a bellach mae gennym ddau arwynebedd mawr o'r planhigyn tlws yma ar ddiwedd yr haf. Yn fwy diweddar, ymddangosodd tegeirianau, er yn afreolaidd ac mewn gwahanol leoliadau. Roeddem yn falch iawn eleni i weld dau degeirian llydanwyrdd am y tro cyntaf. Gyda'r planhigion, daw pryfed. Eleni gwelsom nifer fawr o wyfynod bwrned. Mae nifer o loÿnnod byw a gwyfynod cliradain yn sicrhau mwy o ddiddordeb ac amrywiaeth.

Os ydych chi'n dymuno datblygu eich mynwent, cysylltwch â 'Gofalu am Erw Duw', eich Ymddiriedolaeth Fywyd Gwyllt leol neu'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Mae'r rhain i gyd wedi bod yn gryn gymorth gyda syniadau a help ymarferol. Rydw i hefyd ar gael i drafod beth rydym yn ei wneud yn fwy manwl.

Betty Wood







Noddir bwrdd dehongli Eglwys Sant Hywyn (llun isod) gan broject Dawnsio ar y Dibyn a ariennir gan Lywodraeth Cymru

# Lawntiau gardd a glaswelltir

*"My garden sings its own song. It starts after the dawn chorus with the honeybees, followed by the heavier buzz of the bumbles, punctuated by the hoverflies' higher pitch. You can even sometimes hear the rustle and creak of beetles as evening comes. To lie among it, eyes closed, is to hear something exquisite.*
*My garden sings this song because it is allowed to. I have long been a proponent of neglecting lawns to nurture nature,and there isn't a manicured strip of green that doesn't ache to do the same.*
*Most lawns have been silenced by the regime of a lawnmower, leaving just a few species of grass. They are biodiversity deserts, barren of beetle and bee, contributing to a vanishing insect population.*
*There is another way. Your lawn is already a wildflower meadow – every inch of soil is waiting for its moment to burst forth. Those weeds are some of the best insect food, growing despite the weather, endlessly repeat blooming, rich in nectar and pollen. A seed bank is already there – it might even contain orchids. Oh, and perhaps plenty of moss, essential stuff for nests and nature of all sorts."*
*Alys Fowler in The Guardian, Mercher 24, Ebrill 2019*

Dyma enghraifft neu ddwy gan breswylwyr Llŷn o droi lawntiau yn ddolydd:

Meddai Elizabeth George, o Gricieth: *"Ychydig dros flwyddyn yn ôl mi wnaethon ni benderfynu cydweithio gyda'r prosiect Dolydd Llŷn i gynyddu diddordeb bywyd gwyllt ein gardd. Y bwriad yw i droi hen lawnt yn yr ardd yn weirglodd o flodau gwyllt. Y gobaith yw creu cynefin amrywiol lliwgar sydd hefyd yn gynefin i adar, gwenyn, gloÿnnod byw ac ati.*

*Gyda chymorth garddwr lleol, sy'n cydweithio efo'r Prosiect, rydan ni wedi cael hadau o gynhaeaf hen gaeau gwair lleol, sy'n cael eu rheoli mewn modd traddodiadol, ac erbyn hyn mae'r planhigion wedi sefydlu. Mae'r prosiect yn mynd i gymryd blwyddyn neu ddwy eto i sefydlu'n iawn ond mae'n bosib gweld newid yn y tyfiant yn barod - mae'r gribell felen wedi sefydlu ac yn creu amodau i flodau a gweiriach eraill ddod yn ei sgil. Dan ni'n edrych ymlaen rŵan i weld be ddaw y gwanwyn nesa."*



'cyn'



Creu lleiniau moel er mwyn hau'r hadau arnyn nhw



'wedyn'

**Mary Robinson, Rhyd-y-clafdy**

O'm cwmpas mae caeau âr un cnwd enfawr. Pan brynais fy nhŷ rai blynyddoedd yn ôl roedd padog bychan yma a oedd wedi ei droi'n rhan o'r ardd: glaswellt byr, yn cael ei dorri'n aml, chwynladdwr ar unrhyw beth nad oedd yn laswellt. Roedd clawdd traddodiadol ar un ochr yn lloches i ychydig o flodau gwyllt a digonedd o fieri a rhedyn. Penderfynais bod torri cyson yn wastraff amser, arian, petrol a'r tir ei hun ac roeddwn yn dyheu am weirgloddiau llawn-blodau tyddyn fy nhad pan roeddwn yn tyfu'n y chwedegau. Gadewais i'r glaswellt dyfu yn yr haf cyn ei dorri'n fyr yn yr hydref. Mi wnes i barhau i dorri llwybr cul o amgylch y cyrion. A wnes i sylwi ar unrhyw newidiadau? Do, sioncod gwair! Pan oedd y drws yn agored, mentrodd ambell un i mewn i'm ystafell haul. Yn sicr roedd mwy o amrywiaeth o blanhigion – pysen-y-ceirw, blodau'r neidr, melynydd, fioledau, llysiau'r cryman, llyriad culddail, ac eidral.

Ddwy flynedd yn ôl prynais hadau'r gribell felen a gynhyrchwyd yn fasnachol a'u hau ar ddau lain arbrofol lle'r oeddwn wedi crafu rhywfaint o'r glaswellt oddi yno. Y canlyniad oedd – dim byd. Flwyddyn yn ôl cefais rhai hadau wedi eu tyfu yn Llŷn gan gyfaill. Crëodd Jonathan bedwar llain metr sgwâr arbrofol ac roeddwn yn falch iawn yr haf hwn bod y gribell felen wedi blodeuo'n doreithiog. Ond gwyddwn y byddai'r padog bach yn gallu gwneud yn well. Un broblem oedd bod croen o lystyfiant wedi tyfu yn y glaswellt trwchus. Y mis hwn llogodd Jonathan beiriant arbennig a oedd yn rhwygo hwn ac yn tyllu'r ddaear gan adael llain tebyg i faes y gad. Gobeithio y flwyddyn nesaf y byddaf yn ennill fy mrwydr i ail-greu gweirglodd flodau gwyllt draddodiadol.



Jonathan Neale

Am fwy o wybodaeth am greu dolydd bychain ewch i hwb dolydd Plantlife
https://meadows.plantlife.org.uk/making-meadows/

# Tir fferm

Mae Llywodraeth Cymru yn y broses o ddatblygu cynllun amaeth newydd a fydd yn cymryd lle'r taliad fferm unigol cyfredol a'r opsiwn i gymryd rhan yn y cynllun amgylcheddol (Glastir).

Nod y cynigion manwl – a amlinellir yn [ymgynghoriad Ffermio Cynaliadwy a'n Tir] **Sustainable Farming and our Land consultation** - yw gwarchod y tir a'r amgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol tra'n darparu incwm sefydlog i ffermwyr.

Yn unol â'r cynlluniau, gwobrwyir ffermwyr am ganlyniadau amgylcheddol megis gwell ansawdd awyr, cwtogi ar allyriadau o garbon a gwella ansawdd pridd. Bydd hyn hefyd yn helpu i atgyfnerthu busnes y ffermwr ac yn darparu buddion i holl bobl Cymru.

3 Mae tenantiaid ffermydd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn Llŷn wedi bod yn treialu'r egwyddorion yma mewn project 'Tâl am ganlyniad'. Rhoir y project ar waith drwy gyfrwng Partneriaeth Llŷn ac fe'i ariennir gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Llywodraeth Cymru.

Cynhaliais gyfweliad â Carwyn o fferm Cwrt sydd wedi bod yn rhan o 'gynllun tâl am ganlyniad' ers rhai blynyddoedd erbyn hyn.

1. **Beth yw'r prif newidiadau rydych chi wedi eu gwneud o ganlyniad i gymryd rhan yn y treial 'Tâl am ganlyniad'?**

Rydym wedi rhoi nifer o newidiadau ar waith megis cynyddu maint y stribyn arfordirol drwy godi clawdd newydd lled un cae i mewn i'r tir – ac rydym yn y broses o adfer y caeau yma i ddolydd gwair. Mae hyn hefyd yn cynnwys newid rhythm flynyddol pori'r caeau yma, yn ogystal ag ar lethrau'r arfordir. Rydym hefyd wedi dechrau defnyddio porfeydd perlysieuol yn hytrach na chymysgeddau o rygwellt ac wedi plannu coed ar lethrau a chyrion. Mae gennym hefyd stribyn llydan o amgylch rhai o'r caeau er mwyn annog rhywogaethau âr brodorol fel troellig yr ŷd a'r trilliw. Fodd bynnag, y prif newid yw'r newid mewn agwedd; yn hytrach na 'mae mwy yn well', dydyn ni ddim mor ddwys ag yr oeddem o'r blaen felly mae llai yn mynd i mewn.

2**. Beth yw'r prif wahaniaeth rhwng y cynllun newydd hwn a chynlluniau amgylcheddol blaenorol fel Glastir?**

Mae ein barn yn cyfrif, felly rydym yn teimlo bod gennym fwy o ran ac yn gallu rheoli pethau. Gallwn wneud ein penderfyniadau ein hunain ynglŷn â sut i wireddu pethau yn hytrach na bod rhywun arall yn dweud wrthym be i'w wneud. Roedd Glastir yn llawn presgripsiynau gyda dim ond rhestr o ddyddiadau yn nodi pryd yr oeddem yn cael gwneud pethau a phryd doedden ni ddim, a rhestr o bethau yr oedd rhaid i ni eu gwneud i gael ein talu. Roedd yn drwm iawn o ran gwaith papur a doedd 'na neb i'w holi neu i gael cyngor ganddyn nhw. Gyda'r cynllun hwn mae llawer mwy o hyblygrwydd gyda'r tymhorau fel maen nhw'n newid ac mae cyngor ar gael. Mae ysgogiad hefyd i wneud y newidiadau oherwydd fel bydd y cynefin yn gwella, po fwyaf yw'r taliad. Mae hefyd mwy o gydweithio, ac mae gennym well perthynas tenant/tirfeddiannwr yn hytrach na dim ond cael bil ddwywaith y flwyddyn neu gysylltu os oes rhywbeth yn mynd o'i le. Mae'r cynllun yn cynnwys gwobrwyo ymarfer da sy'n sicrhau budd i'r amgylchedd ehangach a'r sawl sy'n byw ynddo, yn ogystal â helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a bioamrywiaeth. Felly, er enghraifft, mae pori'r llethrau arfordirol ar adegau penodol y flwyddyn hefyd o fudd i'r sawl sy'n defnyddio llwybr arfordir Cymru, ac yn cynyddu amrywiaeth ar y llethrau. Yn hanesyddol, gadawyd y stribyn hwn heb ei bori felly roedd gwellt bras a rhedyn wedi arglwyddiaethu.



Bwrned chwe smotyn ar bysen-y-ceirw



© Ben Porter Clustog Fair

**3. Ydych chi wedi cwtogi ar y nifer o dda byw?**
Rydym wedi lleihau ein nifer o ddefaid ond mae gennym tua'r un faint o wartheg. Fodd bynnag, rydym wedi newid ein brîd o wartheg i fod yn fwy addas ar gyfer system yn seiliedig ar welltir.

**4. Ydy eich cynhyrchiant/allbwn bwyd wedi cynyddu?**
Mae'n debyg ei fod ychydig yn llai, ond ddim llawer. Fodd bynnag, rydym yn cael ein talu am y buddion eraill yr ydym yn eu cynhyrchu – fel y buddion i beillwyr ayyb. Busnes fferm ydyn ni, felly mae'n rhaid i ni fod yn hyfyw'n economaidd. Byddai bod yn berchen ar y weirglodd laswellt orau'n y byd ddim yn gweithio os na fyddem yn cael ein talu i'w wneud. Rydym wedi lleihau ein mewnbwn – fel faint o fwyd anifeiliaid sy'n cael ei brynu i mewn, sy'n cael ei fewnforio o wahanol rannau o'r byd. Wrth geisio gweithio gyda'r hyn sydd gennym; rydym yn lleihau ein ôl-troed carbon ac yn gwneud y fferm yn fwy gwydn.

**5. Ydy eich agwedd tuag at ddolydd gwair wedi newid?**
Ydy. Arferwn gredu eu bod yn wastraff amser a gofod gan ein bod yn dymuno cynhyrchu cymaint o silwair â phosib. Rŵan dwi'n gweld sut maen nhw'n ffitio yn y darlun mawr – mae angen gwarchod pob rhan o'r gylchedd oherwydd mae effaith ddilynol. Er enghraifft, mae peillwyr yn bwysig ar y fferm ac mae angen iddyn nhw gael cynefin a phorthiant ledled y flwyddyn.

**6. Pa werth sydd i'r gweirgloddiau yn eich system fferm?**
Wel, yn y bôn rydym yn cael ein talu i'w wneud, felly mae gwerth yno – rydym yn dibynnu arnyn nhw am fywoliaeth yn hytrach na hobi. Ond rydym wedi gweld dipyn o werth gyda'r hafau sy'n gynyddol sych – mae'r gweirgloddiau mewn safle lle mae'r glaswellt fel arfer yn llosgi, ond mae'r gymysgedd o rywogaethau'r weirglodd yn gallu dioddef sychder yn well gan fod llawer ohonyn nhw'n berchen ar wreiddiau dwfn. Gwelsom yn arbennig pa mor wydn oedden nhw'r haf hwn. Mae'r gwair ei hun hefyd yn well ar gyfer bwydo'r stoc yn y gaeaf a does dim angen ei lapio mewn plastig. Dydy o ddim cystal ar gyfer tewychu stoc â rhygwellt ond mae ganddo werth maethlon da ledled y gaeaf.

**7. A fyddech chi wedi gwybod sut i adfer gweirglodd cyn cymryd rhan yn y cynllun?**
Na. Roeddwn yn meddwl mai gweirglodd oeddech chi'n ei gael wrth beidio trin cae. Rŵan dwi'n gwybod beth yw prif gynhwysion gweirglodd a'r prosesau sydd eu hangen i adfer un.

**8. Ydych chi wedi gweld unrhyw newid yn y bywyd gwyllt?**
Mae angen i mi gymryd mwy o sylw; yn aml pobl sy'n dweud wrtha'i beth sydd wedi newid! Ond rydw i'n sylwi ar y gylfinirod a'r brain coesgoch yn bwydo yn y weirglodd fawr, a'r niferoedd uchel o wenoliaid sy'n plymio uwchben y caeau am bryfed – ac ymddangosodd y degeirian llydanwyrdd ar y llethr arfordirol eleni er nad oedd wedi ei weld ers cryn amser.

**9. Beth fyddech chi'n ei ddweud wrth ffermwyr eraill sy'n ystyried a ydyn nhw am gymryd rhan yn y cynllun newydd?**
Peidiwch â bod ofn rhoi cynnig arni. Ewch i mewn i'r cynllun gyda meddal agored a byddwch yn fodlon cael eich dysgu gan yr ymgynghorwyr. Byddwch yn barod i roi cynnig arni – os na fydd o'n gweithio yna gallwch newid yr hyn rydych yn ei wneud – mae hyblygrwydd yn rhan ohono. Peidiwch â chymryd rhan, fodd bynnag, os ydych am fod yn feirniadol.

10. Un gair olaf?
'Mae angen ei gilydd ar ffermio a byd natur. Heb un gewch mi mo'r llall'





Gwasgaru gwair gwyrdd ar fferm Cwrt yn 2019, a'r un ddôl yn 2022

# Tyddynnod a chaeau mewn perchnogaeth breifat

Mae digonedd o gaeau yn Llŷn nad ydyn nhw'n cael eu defnyddio ar gyfer amaeth, y gellir eu hadfer fel gweirgloddiau wrth gyflwyno rheolaeth briodol. Enghraifft o hyn yw Gorlan Hen, ger Pengroeslon.

Bwthyn 300 oed yw Gorlan Hen ac yn rhan o'r tyddyn mae gweirglodd 5-acer. Doedd y cae yma ddim wedi ei aredig na'i wella'n amaethyddol ers o leiaf 50 mlynedd, mwy mae'n debyg. Cyn 2018 doedd dim rheolaeth sefydlog; torrwyd y gwair a'r brwyn yn achlysurol a'i bori ac, er fod y tyfiant yn eithaf amrywiol, roedd y brwyn yn dechrau arglwyddiaethu fwyfwy. Cafwyd dipyn o lwc yn 2018 oherwydd pan ddaeth porwr lleol newydd i'w reoli. bu bron i'r weirglodd gael ei chwistrellu gyda Round up! Diolch i nifer o ddigwyddiadau, fodd bynnag, achubwyd y weirglodd mewn da bryd!

Ers hynny cyflwynwyd trefn flynyddol o reolaeth yn cynnwys torri'r weirglodd ar ddiwedd yr haf, ei phori gyda defaid dros y gaeaf a thocio'r brwyn yn gynnar yn y flwyddyn cyn ei gadael i dyfu, blodeuo a hadu. Mae hyn yn digwydd drwy drefniant gyda phorwr lleol (sydd bellach yn deall ei phwysigrwydd!).

Mae'n debyg mai dyma un o'r ychydig o weirgloddiau hynafol sydd ar ôl yn Llŷn ac mae'n darparu arddangosfa hyfryd o flodau drwy gydol yr haf, yn enwedig y llygad llo mawr, cribell felen, tegeirian brych, y feddyges las, suran y cŵn, corfeillionen wen, a'r bengaled. Mae sefyll yng nghanol y weirglodd hon ar ddiwrnod o haf gyda suo'r holl bryfed o'ch cwmpas yn brofiad rhyfeddol!

Cynhaliodd Steve a Felicity, y perchnogion, ddiwrnod agored i'r grŵp gweirgloddiau ar 22 Mehefin, ar ddiwrnod arbennig o braf o haf!









# Ymylon ffyrdd

Mae llawer o gynghorau wedi dechrau mabwysiadu ymarferion rheolaeth dda o ochrau ffyrdd, yn ôl argymhellion 'Arweiniad ochrau ffyrdd da' Plantlife https://www.plantlife.org.uk/uk/our-work/publications/good-verge-guide-different-approach-managing-our-waysides-and-verges.
Mae swyddog bioamrywiaeth Gwynedd, Hywyn Williams, yn rhannu project diweddaraf Gwynedd, sydd â'r nod o gynyddu bioamrywiaeth ar ochrau ein ffyrdd, gyda ni:

Efallai y bydd rhai ohonoch sydd wedi teithio ar hyd yr A499 a'r A497 yng Ngwynedd yn ddiweddar wedi sylwi ar fwy fyth o gonau ochr ffordd sy'n sicrhau man gweithredu diogel i'r bobl hynny sy'n gweithio ar ochrau ein ffyrdd.  Fodd bynnag, efallai y byddwch hefyd wedi sylwi nad oedd y gwaith yn cynnwys peirianwaith trwm nag offer cloddio chwaith.

Mae Cyngor Gwynedd (Adrannau Priffyrdd ac Amgylchedd) yn gweithio mewn partneriaeth i wella 8 llain ochr ffordd ar hyd y priffyrdd uchod er mwyn gwella a hyrwyddo'r cynefinoedd blodau gwyllt a pheillwyr sydd mor bwysig i ni un ac oll.

Mae gwaith paratoi wedi ei roi ar waith ar drefn reolaeth 'torri a chasglu' newydd i'r safleoedd hyn a fydd hefyd yn cynnwys cyflwyno hadau a gynaeafwyd yn lleol er mwyn annog 'dolydd a chynefinoedd blodau gwyllt newydd'.  Mae Cyngor Gwynedd yn hynod o ddiolchgar i gymuned Dolydd Llŷn am eu cyfraniad caredig o hadau a gynaeafwyd yn lleol (a fydd yn cael eu hymgorffori yn y safleoedd), sy'n sicrhau bod hadau lleol yn hollol hanfodol i lwyddiant y project.

Mae'r Cyngor hefyd wedi sicrhau nawdd Partneriaeth Natur Gwynedd i brynu peirianwaith 'torri a chasglu' newydd a fydd yn darparu staff â'r offer priodol i ehangu ei 'welliannau rheolaeth gofod gwyrdd er budd bioamrywiaeth' yn y dyfodol.

Rydym yn obeithiol y bydd y rheolaeth newydd hon o'n gofodau ochr ffordd a gwyrdd yn dechrau gwrthdroi tueddiadau'r gorffennol o golli cynefin ac os hoffech fwy o wybodaeth ar y gwaith uchod neu efallai gynnig lleoliadau newydd ar gyfer rheolaeth 'torri a chasglu newydd', cysylltwch os gwelwch yn dda â hywynwilliams@gwynedd.llyw.cymru.





Un o'r peiriannau torri a chasglu Rytech newydd, ac ochr ffordd wedi ei baratoi ar gyfer ei hau

# Dolydd cymunedol

Mae dôl gymunedol Mynytho bellach yn ei hail flwyddyn a gwelwyd yno ryfeddodau botanegol – ymddangosodd tegeirian llydanwyrdd trawiadol yng nghanol y llain! Cynhaliodd Robert Parkinson o’r Ymddiriedolaeth Genedlaethol sesiwn arall i ddisgyblion Ysgol Foel Gron, i edrych ar flodau gwyllt a phryfed y ddôl.






Ysgol Foel Gron





Tegeirian llydanwyrdd yn tyfu ar ddôl gymunedol Mynytho, a’r bwrdd dehongli a ariennir gan Plantlife

**Dolydd blodau gwyllt yng Nghae Chwarae Llanbedrog**

Mae Cyngor Cymuned Llanbedrog hefyd wedi dynodi rhan o’u cae chwarae fel dôl flodau gwyllt. Rhoddwyd project creu ar waith eleni, fel mae Alaw Ceris, Cadeirydd y Cyngor Cymuned, yn ei ddisgrifio:

Bu Pwyllgor Cae Chwarae Llanbedrog yn ffodus iawn o dderbyn arbenigedd Jo Porter dros fisoedd yr haf er mwyn dechrau ar y gwaith o sefydlu dolydd blodau gwyllt yng Nghae Chwarae Llanbedrog.

Lleolir y cae yng nghalon pentref Llanbedrog ac mae wedi bod yn gyfleuster amhrisiadwy i’r gymuned ac i ymwelwyr. Ond, yn anffodus, dros y blynyddoedd diweddaraf, mae ei gyflwr wedi dirywio ac felly dyma sefydlu Pwyllgor gyda’r nod o’i adnewyddu a’i wella. Rhan o’r gwelliannau hyn yw sefydlu ardal o flodau gwyllt er mwyn gwella bioamrywiaeth y lleoliad, er budd byd natur a’r gymuned.

Diolch i gefnogaeth yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, defnyddiwyd peiriant *Rytech* i baratoi’r ardaloedd yn y parc ar gyfer yr hadau blodau gwyllt.



Wedi'r gwaith hyn gwahoddwyd 24 o ddisgyblion blwyddyn 3 a 4 Ysgol Llanbedrog i'n helpu i wasgaru'r hadau blodau gwyllt o darddiad lleol ym Mhen Llŷn a oedd wedi eu darparu gan Jo Porter. Mae'r disgyblion wrthi'n gwneud gwaith ar fywyd gwyllt ac felly roeddynt wedi gwirioni eu bod yn cael ein helpu a dysgu am bwysigrwydd blodau gwyllt. Wedi sgwrs am y gwaith o wasgaru'r hadau a pham ein bod yn ei wneud, cafwyd hwyl a sbri gan bawb yn gwasgaru'r hadau ac yna neidio arnynt er mwyn sicrhau nad oeddynt yn chwythu i ffwrdd yn y gwynt!

Dywedodd Mrs Jones, Athrawes Ysgol Llanbedrog "Rydym yn ddiolchgar iawn am y cyfle i'r plant gymryd rhan yn y broses o gynllunio a gwneud gwelliannau i'r parc. Mae ein gwaith am fywyd gwyllt yn clymu'n wych â'r dolydd blodau gwyllt yma. Y cam nesaf yw iddynt ddylunio bwganod brain er mwyn atal yr adar rhag bwyta'r hadau!"

Yr wythnos wedyn daeth y disgyblion yn ôl er mwyn creu eu bwganod brain...dyma gyflwyno Bryn a Beti, Bwganod Brain Cae Chwarae Llanbedrog!

Alaw Ceris














Alaw Ceris

# Creu Dolydd yn Llŷn 2022

Cafwyd blwyddyn lwyddiannus arall o gynaeafu hadau, gyda chryn swp o hadau y gribell felen yn cael eu casglu o gaeau Iwan Edgar, safle gyfrannu allweddol ger Abererch, yn gynnar ym mis Gorffennaf. Sychwyd yr had (diolch i Felin Uchaf am ddarparu'r gofod) ac yna fe'u dosbarthwyd i amrywiaeth o brojectau creu ac adfer dolydd ledled y penrhyn. Sonnir am rai o'r rhain yn y cylchlythyr hwn, yn cynnwys y cynllun ochr ffordd a phroject dolydd ysgolion.
Rhoddodd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol hefyd raglen o brojectau creu dolydd ar waith, wrth ddefnyddio hadau a gasglwyd â pheiriant brwsh a gwair gwyrdd a gynaeafwyd o safleoedd cyfrannol ar dir ym meddiant yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

Bu'n bosibl cyflawni'r holl waith yma i adfer dolydd gydag arian gan Plantlife, Cyngor Gwynedd (Dawnsio ar y Dibyn), a chymorth ymarferol gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Llawer o ddiolch i bawb!





Y cynaeafwr hadau â brwsh ar waith


Gogri'r hadau



Hadau o ddôl sy'n llawn o'r gribell felen




Dôl yn llawn o'r melynydd



Y glöyn byw y glesyn cyffredin



Suran y cŵn © Ben Porter



Moronen y maes

Llawer o ddiolch i'r holl gyfranwyr, ac i Haf Meredydd am gyfieithu. Os oes gennych unrhyw ymholiadau am Ddolydd Llŷn neu os hoffech gael eich cynnwys yn y rhestr bostio, cysylltwch os gwelwch yn dda â Jo Porter bardseyjo@gmail.com

Pob llun gan Jo Porter os na roddir cydnabyddiaeth i rhywun arall.